# Atebion a roddwyd i Aelodau ar 10 Mawrth 2008

[R] yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.
[W] yn nodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.

## Cynnwys


2 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau

2 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Gyllid a Chyflenwi Gwasanaethau Cyhoeddus

2 Cwestiynau i'r Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai

3 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

5 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau

**Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed):** A wnaiff y Gweinidog ystyried diwygio'r meini prawf cymhwysedd ar gyfer Lwfansau Cynhaliaeth Addysg i ganiatáu i blant a symudwyd ymlaen un flwyddyn ysgol neu fwy, ond sy'n astudio ar Lefel Addysg Bellach, gael y Lwfans Cynhaliaeth Addysg fel y gwna'r rheini sy'n 16 neu'n hŷn? (WAQ51454)

**Y Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau (Jane Hutt):** Cyflwynwyd Lwfans Cynhaliaeth Addysg ym mis Medi 2004 er mwyn mynd i'r afael â'r gyfradd isel o bobl ifanc o'r grŵp economaidd cymdeithasol isaf sydd mewn addysg ôl-16. Mae wedi'i gynllunio i annog pobl ifanc gymwys rhwng 16 a 18 oed i barhau mewn addysg ar ôl iddynt gyrraedd oedran ysgol gorfodol ac i fanteisio i'r eithaf ar y cyfle dysgu hwnnw; beth bynnag fo'u gallu neu lefel eu dysgu.

Dechreuwyd ar werthusiad o'r effaith y mae'r Lwfans Cynhaliaeth Addysg wedi'i chael yng Nghymru yn ddiweddar. Ni fyddaf yn gwneud unrhyw newidiadau sylweddol i'r cynllun nes bydd y gwerthusiad wedi'i gwblhau.

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros Gyllid a Chyflenwi Gwasanaethau Cyhoeddus

**Angela Burns (Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro):** A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am sefydlu cyllideb arian cyfatebol Llywodraeth Cynulliad Cymru i gefnogi Rhaglen Cydgyfeirio'r UE 2007-13? (WAQ51473)

**Y Gweinidog dros Gyllid a Chyflenwi Gwasanaethau Cyhoeddus (Andrew Davies):** Yn ogystal â'r arian cyfatebol a ddarperir o gyllidebau adrannol craidd, mae cyllideb ganolog o £105 miliwn wedi'i sicrhau ar gyfer arian cyfatebol rhwng 2008/09 a 2010/11, er mwyn helpu i ddatblygu a chyflwyno prosiectau yn y Rhaglenni Cronfeydd Strwythurol Cydgyfeirio, Cystadleurwydd Rhanbarthol a Chydweithio Tiriogaethol. Mae fy swyddogion wrthi'n gweithio gyda rhanddeiliaid allanol ar hyn o bryd er mwyn datblygu'r dull manwl o weithredu'r rhaglen cais am grant.

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai

**Darren Millar (Gorllewin Clwyd):** A wnaiff y Gweinidog gyhoeddi copïau o unrhyw ohebiaeth (gan gynnwys negeseuon e-bost) rhwng Llywodraeth Cynulliad Cymru a Llywodraeth y DU ynghylch datganoli gorsafoedd pŵer sy'n gallu cynhyrchu dros 50 MW i Gymru? (WAQ51453)

**Y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai (Jane Davidson):** Ymdrinnir â'ch cais fel cais am wybodaeth o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth. Bydd fy swyddogion yn cysylltu â chi yn unol â hynny.

**Darren Millar (Gorllewin Clwyd):** A wnaiff y Gweinidog gyhoeddi copïau o unrhyw ohebiaeth (gan gynnwys negeseuon e-bost) rhwng Llywodraeth Cynulliad Cymru, Asiantaeth yr Amgylchedd a Chyngor Cefn Gwlad Cymru yn rhoi cyfarwyddyd ynghylch Ceisiadau Ffermydd Gwynt yn ystod 2005, 2006, 2007 a 2008? (WAQ51468)

**Jane Davidson:** Ymdrinnir â'ch cwestiwn fel cais am wybodaeth o dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a bydd fy swyddogion yn cysylltu â chi'n fuan i fynd â'r cais yn ei flaen.

**Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y cynnydd gyda darparu tai fforddiadwy i bobl leol? (WAQ51492)

**Jane Davidson:** Fel y gwyddoch, rwyf eisoes wedi cyhoeddi mwy o gyllid ar gyfer y Rhaglen Grantiau Tai Cymdeithasol, hyfforddiant ar gyfer awdurdodau lleol a llinellau gwariant newydd ar gyfer Ymddiriedolaethau Tir Cymunedol a Grantiau Prynwyr am y Tro Cyntaf.

Rwy'n gobeithio gwneud rhagor o gyhoeddiadau ar Gynlluniau Darparu Tai Fforddiadwy ac ehangu'r rhwydwaith Swyddogion Galluogi ym Maes Tai Gwledig yn fuan.

Yn y cyfamser, rydym yn parhau i weithio gydag awdurdodau lleol ar amrywiaeth o fentrau i'w helpu i wella'r broses o ddarparu tai fforddiadwy yn lleol.

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

**Jenny Randerson (Canol Caerdydd):** Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi'u cael gyda Llywodraeth y DU am ei chynlluniau i roi cynghorwyr cyflogaeth mewn meddygfeydd teulu, ac a oes unrhyw gynlluniau i dreialu'r rhain yng Nghymru? (WAQ51436) ***Trosglwyddwyd i'w ateb gan y Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau***

**Y Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau (Jane Hutt):** Mae Gwasanaeth Cynghori ar Lwybrau Llywodraeth y DU yn brosiect peilot sy'n cynnig cyngor ar ddychwelyd i'r gwaith i gleifion ac yn gweithredu fel porth i ddarpariaeth bellach drwy'r rhaglen Llwybrau at Waith. Ar ddechrau 2007, dewiswyd chwe ardal beilot, yn cynnwys Pen-y-bont ar Ogwr a Rhondda Cynon Taf, i dreialu'r prosiect Gwasanaeth Cynghori ar Lwybrau. Disgwyliwyd i'r cynlluniau peilot hyn ddod i ben ym mis Mawrth 2008 ond, ar ôl cyhoeddiad ym mis Tachwedd 2007 gan yr Adran Gwaith a Phensiynau yn cefnogi Strategaeth Genedlaethol ar gyfer Iechyd Meddwl a Gwaith, cytunwyd i roi £5 miliwn ychwanegol er mwyn ehangu a pharhau â'r cynlluniau peilot hyn dros y tair blynedd nesaf. Mae fy swyddogion wrthi'n trafod yr opsiynau ar gyfer ehangu'r Gwasanaeth Cynghori ar Lwybrau yng Nghymru gyda'r Adran Gwaith a Phensiynau a'r Ganolfan Byd Gwaith.

Hefyd, mae cydfenter 'Yn Awyddus i Weithio' Llywodraeth Cynulliad Cymru/y Ganolfan Byd Gwaith, yn treialu gweithgareddau i ysgogi newid yn ymddygiad meddygon teulu. Er enghraifft, gwnaed cyflwyniadau i bedair allan o'r pump o feddygfeydd yn y Rhyl, ac mae tair ohonynt wedi cytuno i ddarparu safleoedd ar gyfer cynghorwyr cyflogaeth er mwyn cyfweld â chleifion sydd am drafod eu hopsiynau ar gyfer dychwelyd i weithio. Mae un feddygfa eisoes yn cael atgyfeiriadau at 'Yn Awyddus i Weithio', lle mae gan nyrsys y feddygfa ddealltwriaeth dda o sylfaen eu cleifion ac maent yn awyddus i sicrhau opsiynau amgen i ragnodi meddyginiaeth.

**Angela Burns (Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro):** Pryd gaiff y rhaglen sgrinio am ganser y coluddyn ei chyflwyno yng Ngorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro? (WAQ51462)

**Y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (Edwina Hart):** Caiff y rhaglen sgrinio canser y coluddyn ei chyflwyno'n llawn fesul cam, gan ddechrau gyda phobl rhwng 60 a 69 oed, yna pobl rhwng 70 a 74 oed ac yn olaf i bobl rhwng 50 a 59 oed. Mae'r cyfnod cynllunio yn mynd rhagddo'n dda a bwriedir i'r sgrinio cyntaf ddechrau mewn safleoedd ledled Cymru o fis Hydref.

**Angela Burns (Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro):** Sut ydych yn bwriadu achredu niferoedd digonol o golonoscopyddion a pha ddarpariaeth sy'n cael ei wneud ar gyfer offer? (WAQ51463)

**Edwina Hart:** Fel rhan o'r broses gynllunio, caiff anghenion hyfforddi staff a gofynion o ran cyfarpar eu hystyried. Mae Bwrdd Llywio Sgrinio'r Coluddyn wedi cytuno ar fodel asesu ac achredu ar gyfer sgrinio colonoscopyddion yng Nghymru, a fydd yn cynnwys archwilio arfer presennol colonoscopyddion. Bydd colonoscopyddion a all gael eu sgrinio yn cael eu henwebu gan eu Hymddiriedolaeth a bydd y ceisiadau'n cael eu hasesu gan Sgrinio Coluddion Cymru a threfnir achredu'r colonoscopyddion a ddewiswyd. Yn ystod y cam cyflwyno cychwynnol, bydd angen 20 o golonoscopyddion achrededig ledled Cymru, gydag wyth o'r rhain wedi'u hachredu fel aseswyr hefyd. Mae Ymddiriedolaeth GIG Felindre, a fydd yn darparu'r gwasanaeth hwn, yn hyderus y gellir achredu'r nifer hwn o golonoscopyddion o fewn y terfyn amser.

O ran cyfarpar, fel rhan o'r adolygiad sylfaenol o wasanaethau colonosgopi, a gynhaliwyd gan dîm prosiect Sgrinio Coluddion Cymru, gofynnwyd i Ymddiriedolaethau roi manylion am y dyfeisiau colonosgopi sy'n cael eu defnyddio ar hyn o bryd, eu hoedran a'r dyddiadau y bwriedir cael rhai newydd. Ni ddatgelwyd unrhyw broblemau o ran hen gyfarpar neu gyfarpar anaddas. Mae cael dyfeisiau colonosgopi newydd pan fydd angen yn rhan o gynllun amnewid cyfalaf pob Ymddiriedolaeth a fu'n destun asesiad risg. Bydd archwiliad Cymru gyfan o gyfarpar dadheintio a ddefnyddir mewn adrannau endoscopi, a gyflawnir mewn cydweithrediad ag Ystadau Iechyd Cymru, yn dechrau yn fuan.

**Angela Burns (Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro):** Sut ydych yn bwriadu annog pobl i gymryd rhan yn y rhaglen sgrinio am ganser y coluddyn? (WAQ51464)

**Edwina Hart:** Mae Ymddiriedolaeth GIG Felindre yn datblygu strategaeth i godi ymwybyddiaeth y cyhoedd o raglen sgrinio canser y coluddyn mewn ymgynghoriad â grwpiau defnyddwyr posibl, gweithwyr gofal iechyd proffesiynol a'r sector gwirfoddol. Caiff y strategaeth hon ei rhoi ar waith o ddifrif ychydig cyn i'r rhaglen sgrinio ddechrau ym mis Hydref.

**Angela Burns (Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro):** Pa gamau sy'n cael eu cymryd i atal cam-drin pobl hŷn yng Nghymru? (WAQ51466)

**Edwina Hart:** Mae pob awdurdod lleol yng Nghymru wedi sefydlu trefniadau amddiffyn oedolion lleol yn unol â chanllawiau statudol Llywodraeth y Cynulliad 'Mewn Dwylo Diogel'. Ar 20 Chwefror cyhoeddodd y Dirprwy Weinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, Gwenda Thomas AC, Ddatganiad y Cabinet yn nodi'r camau pellach rydym yn eu cymryd er mwyn sicrhau bod polisïau amddiffyn oedolion sy'n agored i niwed yn parhau i fod yn briodol ac yn gadarn. Cyhoeddwyd y Datganiad hwn ar wefan Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

http://www.assemblywales.org/bus-home/bus-guide-docs-pub/bus-business-documents/bus-business-documents-written-min-state/dat20080220-e4.pdf?langoption=3&ttl=Protection%20of%20Vulnerable%20Adults%20%28PDF%2C%2029-1kb%29

**Angela Burns (Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro):** Sawl enghraifft o gam-drin pobl hŷn a gofnodwyd yng Nghymru ar gyfer pob un o'r 5 mlynedd diwethaf? (WAQ51467)

**Edwina Hart:** Mae canllawiau 'Mewn Dwylo Diogel' Llywodraeth y Cynulliad ar amddiffyn Oedolion sy'n Agored i Niwed yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol yng Nghymru fonitro honiadau o gam-drin oedolion. Ers 2003 mae Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (Arolygiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru gynt) wedi casglu gwybodaeth gan bob awdurdod lleol gyda chefnogaeth gan Uned Data Llywodraeth Leol. Mae nifer yr achosion a gofnodwyd ymhlith oedolion fel a ganlyn:

| | |
|---|---|
| 2003-04 | 1301 |
| 2004-05 | 2568 |

| | |
|---|---|
| 2005-06 | 3182 |
| 2006-07 | 4244 |

Fodd bynnag, mae gwaith ymchwil ac arolygon a gyhoeddwyd yn nodi bod achosion o gam-drin oedolion hŷn o leiaf yr un mor debygol o ddigwydd yng nghartrefi'r dioddefwyr ag mewn sefydliadau gofal, ac mae'r ffigurau hyn felly yn fwy tebygol o dangofnodi nifer yr achosion o gam-drin sy'n digwydd yn y gymuned mewn gwirionedd.

**Helen Mary Jones (Llanelli):** Pa gyfran o ddeintyddion sy'n cymhwyso o'r newydd fydd yn ymuno â'r GIG? (WAQ51491)

**Edwina Hart:** O'r 62 o ddeintyddion newydd gymhwyso a gwblhaodd eu hyfforddiant galwedigaethol yng Nghymru yn 2007, ymunodd 46 ohonynt â'r GIG yng Nghymru, naill ai drwy Bractis Deintyddol Cyffredinol, Hyfforddiant Proffesiynol Cyffredinol neu'r Gwasanaeth Deintyddol Cymunedol, ac ymunodd 11 ohonynt â'r GIG y tu allan i Gymru. Nid oes gennym unrhyw wybodaeth am y pump arall.

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol

**Dai Lloyd (Gorllewin De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am effaith cynigion Llywodraeth y DU i gysylltu taliadau budd-daliadau â thriniaeth cyffuriau ar strategaeth camddefnyddio sylweddau Llywodraeth Cynulliad Cymru? (WAQ51451)

**Y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol (Brian Gibbons):** Dim ond i Loegr y mae'r cynnig i gysylltu taliadau budd-dal â thriniaeth gyffuriau yn berthnasol, sy'n cael ei gynnwys yn strategaeth gyffuriau Lloegr. Byddai unrhyw gynnig i gyflwyno hyn mewn rhannau eraill o'r DU yn galw am newid deddfwriaethol.